
# Y Gwasanaeth Ymchwil

## Canllaw



Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.**


Cysylltwch â ni

Post: Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: + 44 (029) 2089 8097

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**

Blog: **http://pigion.wordpress.com**

Twitter: Senedd**Ymchwil**

Gwefan: **www.cynulliadcymru.org/research**


Ebrill 2014

# Beth yw'r Gwasanaeth Ymchwil?

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae wedi'i leoli yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd. Rydym yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Rydym yn darparu gwasanaethau ymchwil a gwybodaeth arbenigol a diduedd i gefnogi Aelodau'r Cynulliad a'r pwyllgorau wrth weithredu swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol y Cynulliad. Rydym yn arbenigwyr polisi a gwybodaeth o amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol, ac mae gennym brofiad sylweddol yn y meysydd polisi rydym yn gweithio ynddynt a sut mae'r Cynulliad yn gweithredu.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn gweithio o fewn Cyfarwyddiaeth Fusnes y Cynulliad, sy'n darparu cymorth seneddol arbenigol i'r 60 o Aelodau Cynulliad i sicrhau y caiff y busnes ei gynnal mewn modd effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cynnwys:

- pedwar tîm ymchwil sy'n darparu cyngor arbenigol ynghylch meysydd polisi penodol
- tîm ymchwil sy'n rhoi gwybodaeth ariannol ac ystadegol arbenigol
- tîm ymchwil sy'n rhoi cyngor ynglŷn â'r Cynulliad, y cyfansoddiad, deddfwriaeth y DU a'r UE, etholiadau a refferenda
- llyfrgell sy'n cynnig amrywiaeth lawn o wasanaethau cyfeirio a gwasanaethau gwybodaeth

Rydym hefyd yn gweithio gyda Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel sy'n cynnig cymorth, gwybodaeth a chymorth am faterion yn ymwneud â'r UE gan gynnwys cymorth gyda rhaglenni ymweliadau .

## Sut rydym yn cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad?

- Rydym yn darparu gwybodaeth ymchwil ac arbenigedd i helpu Aelodau'r Cynulliad i graffu ar ddeddfwriaeth a pholisïau
- Rydym yn darparu gwybodaeth i helpu Aelodau'r Cynulliad mewn pwyllgorau
- Rydym yn ateb ymholiadau'n ymwneud â busnes y Cyfarfod Llawn neu'r pwyllgorau neu â gwaith etholaethol fel rhan o'n gwasanaeth ymholiadau cyfrinachol a diduedd
- Rydym yn rhoi cymorth ymchwil i Aelodau'r Cynulliad ddatblygu a chyflwyno cynigion ar gyfer deddfwriaeth
- Rydym yn cynhyrchu amrywiaeth o bapurau ymchwil rhagweithiol i'w helpu i gyfrannu at drafodaeth agored a deallus.



## Beth rydym yn ei gyhoeddi?

Caiff ein holl gyhoeddiadau eu creu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn, ond os oes modd, byddwn hefyd yn eu cyhoeddi ar ein **tudalennau ar y fewnrwyd**. Mae copïau printiedig ar gael yn y Llyfrgell.

Mae **papurau ymchwil** yn dadansoddi pynciau sydd dan sylw yn y Cynulliad ac yn rhoi trosolwg cytbwys er mwyn cynorthwyo craffu neu drafodaeth.

Mae ein **nodiadau ymchwil** yn ymdrin â phynciau cyfredol mewn modd cryno a hwylus.

Mae ein **hysbysiadau hwylus** yn rhoi cyflwyniad byr i pynciau cymhleth neu technegol, yn aml fel rhan o gyfres o ganllawiau i faes arbennig.

Mae **ein taflenni gwybodaeth ar** gyfer etholwyr yn amlinellu ac yn nodi'r ffynonellau ariannu posib a'r wybodaeth sydd ar gael i sefydliadau ac etholwyr unigol.

Medrwch hefyd ein dilyn ar
twitter @YmchwilCCC

Ein blog **Pigion** er mwyn darllen a derbyn erthyglau ymchwil cryno a darllenadwy ar faterion cyfoes.



# Pa wasanaethau monitro rydym yn eu cynnig?

Rydym yn cyhoeddi amrywiaeth o wasanaethau monitro ar fewnrwyd y Cynulliad.

Mae tudalennau **hynt deddfwriaeth y Cynulliad** yn rhoi crynodeb cyson o hynt deddfwriaeth y Cynulliad a lincs i ddogfennau perthnasol a gwybodaeth esboniadol ychwanegol yn cynnwys papurau **crynodeb o Fil**.

Mae **Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol** yn dilyn hynt cynigion sydd yn galluogi'r Cynulliad i roi neu wrthod caniatad i Senedd y DU ddeddfu ar faterion sydd wedi eu datganoli.

Rydym yn dilyn hynt **Cynigion Cydsyniad** ble mae'n ofynnol i'r Cynulliad roi cysyniad mewn enghreifftiau ble mae Gweinidogion Llywodraeth y DU yn medru defnyddio pwerau gwneud gorchmynion mewn materion sydd wedi eu datganoli o ganlyniad i ddeddfwriaeth cynradd sydd yn bodoli eisioes.

Mae tudalennau **digwyddiadau allweddol yn y broses o ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru** yn rhoi amserlen sy'n dangos y digwyddiadau allweddol yn y broses o ddatblygu'r Cynulliad.

**Yn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Datganoli yng Nghymru: Llyfryddiaeth** ceir casgliad o ddogfennau pwysig sy'n rhoi darlun cytbwys o ddatblygiad y Cynulliad a datganoli yng Nghymru.

## Y Llyfrgell

Mae’r Llyfrgell yn darparu gwybodaeth a gwasanaethau cyfeirio a monitro o safon uchel i Aelodau’r Cynulliad, eu staff a staff y Cynulliad. Mae ganddi ystafell ddarllen fodern a chyfforddus lle cewch ddarllen cyhoeddiadau swyddogol, cyfeirlyfrau, papurau newydd, cyfnodolion ac adnoddau electronig.

## Swyddfa’r UE

Mae Swyddfa’r UE wedi’i lleoli yn Nhŷ Cymru yng nghanol ardal yr UE ym Mrwsel, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr eraill o Gymru. Mae’n rhoi cyngor a gwybodaeth arbenigol ar faterion yr UE; yn rhoi cymorth i gynrychiolwyr y Cynulliad Cenedlaethol ar Bwyllgor y Rhanbarthau (a Chyngor Ewrop); yn hyrwyddo gwaith a buddion y Cynulliad ymhlith y rhai sy’n gwneud penderfyniadau yn yr UE; ac yn hwyluso rhaglenni ar gyfer Aelodau’r Cynulliad a dirprwyaethau staff i Frwsel.

# Sut y gallwch chi ein helpu ni?

Nid ydym yn ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn croesawu cael cyhoeddiadau neu gael gwybod am gyhoeddiadau wedi'u hargraffu neu mewn fformat electronig a allai fod o ddiddordeb i Aelodau'r Cynulliad a'r staff ymchwil.

Rydym yn croesawu sylwadau ynghylch ein cyhoeddiadau a hoffem glywed yn benodol gan ymchwilwyr sy'n gweithio yn y meysydd diddordeb perthnasol. Hoffem glywed hefyd ynghylch cynadleddau, seminarau neu ddigwyddiadau rhwydweithio eraill a allai fod o ddiddordeb i'n hymchwilwyr.

Gallwch anfon eich cyhoeddiadau yn y post i'r cyfeiriad ar gefn clawr y llyfryn hwn neu at y cyfeiriad e-bost a nodir.

# Cyfeiriadur arbenigwyr y Gwasanaeth Ymchwil

## Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil

**Kathryn.Potter** @cymru.gov.uk 029 2089 **8038**

## Tîm y Cynulliad a'r Cyfansoddiad

Yn darparu cyngor arbenigol ar y Cynulliad; datganoli; cyfansoddiad y DU; deddfwriaeth Cymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (mewn cydweithrediad â Gregg Jones o swyddfa'r UE); llywodraethiant; is-ddeddfwriaeth; etholiadau; a refferenda.

**Alys.Thomas** @cymru.gov.u**k** ***** 029 2089 **8219**

**Stephen.Boyce** @cymru.gov.uk 029 2089 **8095**

* **Siaradwr Cymraeg**

## Tîm yr Economi, Cymunedau a Llywodraeth Leol

Cyngor arbenigol ar yr economiy; Yr Undeb Ewropeaidd; cyfiawnder cymdeithasol; lles; cyfle cyfartal; y sector wirfoddol; diogelwch cymunedol; diwylliant; chwaraeon a hamdden; amgueddfeydd a llyfrgelloedd; Y Gymraeg; llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus, adfwyio a thai.

**Ben.Stokes** @cymru.gov.uk 029 2089 **8208**

**Arweinydd y Tîm Ymchwil**

Busnes; datblygu economaidd; cronfeydd strwythurol

**Jonathan.Baxter** @cymru.gov.uk 029 2089 **8993**

Polisi tai; tlodi; cymunedau

**Rhys.Iorwerth** @cymru.gov.uk * 029 2089 **8927**

Llywodraeth leol; diwylliant; chwaraeon; Y Gymraeg

**Hannah.Johnson** @cymru.gov.uk 029 2089 **8664**

Cyfle cyfartal; lles; y sector wirfoddol

**Robin.Wilkinson** @cymru.gov.uk 029 2089 **8983**

Undeb Ewropeaidd; twristiaeth; caffael

*** Siaradwr Cymraeg**

## Y Tîm Addysg a dysgu gydol oes

Yn darparu cyngor arbenigol ar plant a phobl ifanc, addysg a dysgu gydol oes.

**Anne.Thomas** @cymru.gov.uk 029 2089 **8966**

**Arweinydd y Tîm Ymchwil**

Addysg uwch ac addysg bellach; dysgu gydol oes a hyfforddiant sgiliau

**Sian.Thomas** @cymru.gov.uk ***** 029 2089 **8996**

Addysg, plant a phobl ifanc

**Siân.Hughes** @cymru.gov.uk 029 2089 **8221**

Addysg

**Michael.Dauncey** @cymru.gov.uk 029 2089 **8212**

Addysg; cwricwlwm; ysgolion a chyllid

* **Siaradwr Cymraeg**

## Tîm yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

Darparu cyngor arbenigol ar drafnidiaeth, ynni, yr amgylchedd, cynllunio, amaethyddiaeth, pysgodfeydd, datblygu gwledig, datblygu cynaliadwy, coedwigaeth a dyfroedd morol a mewndirol.

**Graham.Winter** @cymru.gov.uk 029 2089 **8166**

**Arweinydd y Tîm Ymchwil**

Cynllunio; adeiladu; tir ac ynni

**Andrew.Minnis** @cymru.gov.uk 029 2089 **8555**

Trafnidiaeth

**Nia.Seaton** @cymru.gov.uk * 029 2089 **8987**

Amaethyddiaeth a datblygu gwledig; cadwraeth natur; polisi morol; datblygu cynaliadwy

**Elfyn.Henderson** @cymru.gov.uk * 029 2089 **1844**

Dŵr; llifogydd; bwyd a diod; cynllunio; adeiladu; datblygu cynaliadwy

**Chloe.Corbyn** @Wales.gov.uk 029 2089 **8095**

Gwastraff; newid yn yr hinsawdd; asesu strategol i'r amgylchedd; datblygu cynaliadwy

**Nigel.Barwise**@cymru.gov.uk 029 2089 **8928**

Cynorthwy-ydd ymchwil ac ymholiadau

*** Siaradwr Cymraeg**

## Y Tîm Cyllid ac Ystadegau

Darparu cyngor arbenigol ar gyllidebu a chyllidebau'r Cynulliad, cyllid llywodraeth leol ac ystadegau cyffredinol yn cynnwys dulliau a ffynonellau.

**Martin.Jennings** @cymru.gov.uk 029 2089 **8057**

**Arweinydd y Tîm Ymchwil**

Cyllid, ystadegau, costau polisïau a chyllid llywodraeth leol

**Richard.Bettley** @Wales.gov.uk 029 2089 **1949**

Cyllid a chostau polisïau

**Helen.Jones** @cymru.gov.uk 029 2089 **8206**

Y farchnad waith; economi; ystadegau

**GarethDavid.Thomas** @cymru.gov.uk 029 2089 **8678**

Ystadegau cyffredinol; ystadegau cymdeithasol; cyllid cyffredinol

* **Siaradwr Cymraeg**

## Y Tîm Polisi Iechyd a Pholisi Cymdeithasol

Darparu cyngor arbenigol ar iechyd, cam-drin cyffuriau ac alcohol, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol; plant a phobl ifanc; pobl hŷn; diogelwch cymdeithasol

**Sarah.Hatherley** @cymru.gov.uk

**Arweinydd y Tîm Ymchwil** 029 2089 **8617**

Diogelwch cymunedol; iechyd a lles plant

**Victoria.Paris** @cymru.gov.uk 029 2089 **8678**

Polisi iechyd – gofal eilaidd a gofal trydyddol

**Philippa.Watkins** @cymru.gov.uk 029 2089 **8943**

Polisi iechyd – gofal sylfaenol a gofal cymunedol

**Rebekah.James** @cymru.gov.uk 029 2089 **8447**

Gofal cymdeithasol; iechyd meddwl a gwasanaethau cymdeithasol i oedolion



*** Siaradwr Cymraeg**

## Tîm y Llyfrgell

Darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyfeirio, yn cynnwys cyhoeddiadau swyddogol, papurau newydd, cyfnodolion, e-adnoddau a gwasnaethau monitro.

**Stephanie.Wilson** @cymru.gov.uk 029 2089 **8629**

**Pennaeth y Llyfrgell**

Rheolwr y llyfrgell; cynefino a hyfforddiant

**Delyth.Thomas** @cymru.gov.uk ***** 029 2089 **8645**

Gwasanaethau i ddarllenwyr; AdviserNet; Justis Parliament; a trafodion a threfniadaeth Y Cynulliad a San Steffan

**Sian.Davies** @cymru.gov.uk *029 2089 **8922**

Archebu llyfrau; Newsstand; GRANTfinder; Ffynonellau gwybodaeth am gymorth ariannol

**Lucy.Hodson** @cymru.gov.uk 029 2082 **1887**

E-adnoddau; papurau newydd; cyfnodolion; benthyciadau rhwng llyfrgelloedd; adnoddau cyfreithiol; LexisLibrary; trafodion San Steffan; gwybodaeth am gwmnïau

**Emma.Bailey** @cymru.gov.uk 029 2089 **8995**

Benthyg llyfrau ac adnewyddu benthyciadau

* **Siaradwr Cymraeg**

## Tîm y Llyfrgell – parhad

**Gareth.England** @cymru.gov.uk * 029 2089 **8096**

Catalog y llyfrgell; tracio deddfwriaeth; llyfryddiaeth y Cynulliad

**Thomas.Douch** @cymru.gov.uk 029 2082 **1837**

Cyhoeddi Ymchwil

**Suzanne.Gordon** @cymru.gov.uk 029 2089 **8964**

Cyhoeddi ymchwil; cynorthwy-ydd ymchwil ac ymholiadau

*** Siaradwr Cymraeg**

## Swyddfa'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn gweithio'n agos â Swyddfa Undeb Ewropeaidd y Cynulliad sydd yn darparu cyngor arbenigol a gwybodaeth am faterion yn ymwneud â'r UE, sydd yn cynnwys: cefnogi prif ffrydio materion sy'n ymwneud â'r UE ar draws pwyllgorau'r Cynulliad; cefnogi'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd a'u cyfranogiad yng Nghynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop; rhoi cymorth i gynrychiolwyr y Cynulliad Cenedlaethol ar Bwyllgor y Rhanbarthau; hyrwyddo gwaith a buddion y Cynulliad ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn yr UE a hwyluso rhaglenni ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a dirprwyaethau staff i Frwsel.


**Gregg.Jones** @cymru.gov.uk **32 (0)2 226 6692**

**Pennaeth Swyddfa UE y Cynulliad Cenedlaethol**

Cymru House (6th Floor)

Rond Point Schuman, 11

B-1040 Brwsel

Gwlad Belg


* **Siaradwr Cymraeg**